# Polisi Darpariaeth Deunyddiau Asesu mewn Fformatau wedi'u Haddasu

## Datganiad Polisi

Mae datganiad cenhadaeth CBAC yn crynhoi ein hymrwymiad i'n dysgwyr ac i gyfle cyfartal: cefnogi ein cymunedau addysg trwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Yn benodol, yng nghyd-destun darpariaeth deunyddiau asesu mewn fformatau wedi'u haddasu o'r gorffennol, mae CBAC wedi dilyn dull egwyddorion i sicrhau y gallwn fodloni anghenion dysgwyr yn rhesymol. Rydym yn croesawu ymgysylltu cynnar gan ganolfannau ynghylch dysgwyr a allai fod angen deunyddiau asesu mewn fformatau wedi'u haddasu, fel y gallwn drafod opsiynau posibl a sicrhau eu bod yn cael eu cynhyrchu mewn pryd ar gyfer yr asesiadau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod corff dyfarnu yn gwneud addasiadau rhesymol lle byddai ymgeisydd, sydd ag anabledd o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â rhywun nad oes ganddo anabledd. Mae'n ofynnol i'r corff dyfarnu gymryd camau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno. Mae fformatau wedi'u haddasu yn helpu i sicrhau cydraddoldeb, trwy sicrhau bod dysgwyr ag anghenion amrywiol yn gallu cael mynediad at ddeunyddiau asesu er mwyn dangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

## Diffiniadau:

Papur arholiad – unrhyw gyfrwng asesu y mae angen ei gadw'n ddiogel ar y pryd fel nad yw'r cynnwys ar gael i ymgeiswyr. Mae hyn yn cynnwys:

- Fersiynau wedi'u hargraffu a fersiynau digidol o bapurau arholiad allanol (gan gynnwys asesiadau ar sgrin sy'n cael eu sefyll gan ymgeiswyr);
- Dogfennau sy'n nodi gofynion tasgau estynedig; ac
- Unrhyw adnoddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r asesiadau hyn, nad ydynt yn cael eu rhyddhau i ymgeiswyr ymlaen llaw.

Cyn-bapurau – papur arholiad o flwyddyn neu gyfres flaenorol, a ddefnyddir fel arfer i ymarfer ar gyfer arholiad neu i gefnogi adolygu

Papur wedi'i addasu – papur arholiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer ymgeisydd lle mae'r trefniadau mynediad presennol yn anaddas. Maen nhw ar gael mewn amrywiaeth o fformatau sy'n gallu helpu gydag amrywiaeth o anawsterau sy'n wynebu'r ymgeisydd.

Adnodd gwe yw Trefniadau Mynediad Ar-lein, a gynhelir gan y CGC, sy'n caniatáu i Swyddog Arholiadau gyflwyno cais am drefniant mynediad ac archebu papurau wedi'u haddasu yn gyflym ac yn effeithlon.

## Egwyddorion y Polisi:

1. Rhaid archebu deunyddiau asesu yn y fformatau a gytunwyd gan y CGC (Atodiad 1) ar gyfer y gyfres fyw trwy adnodd gwe Trefniadau Mynediad Ar-lein y CGC erbyn y terfyn amser a gyhoeddwyd ar gyfer y gyfres honno (Atodiad 2). Mae'n bwysig cadw at y terfynau amser hyn cyhyd ag y bo modd fel y gallwn fod yn hyderus yn ein gallu i ddarparu deunyddiau asesu safonol yn brydlon.
2. Bydd ceisiadau am ddeunyddiau asesu mewn fformatau eraill ac anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried. Dylid anfon ceisiadau dros e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk. Rydym yn ymdrechu i gydnabod ceisiadau o fewn pum diwrnod gwaith.
3. Bydd pob asesiad wedi'i addasu*, a gynhyrchwyd ar gyfer cyfres fyw, ar gael ar safle Porth CBAC y diwrnod ar ôl yr arholiad terfynol yn y gyfres honno.
4. Bydd pob asesiad wedi'i addasu*, a gynhyrchwyd ar gyfer cyfres fyw, ar gael ar y wefan agored yn unol â'n polisi cyhoeddi.
5. Dylid anfon pob cais am gyn bapurau asesiadau Braille dros e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk. Os bydd papurau ar gael yn y fformat hwn yn barod gan eu bod wedi'u harchebu yn ystod y gyfres fyw, bydd CBAC yn gwneud trefniadau i anfon copi caled yn uniongyrchol i ganolfan neu'n darparu ffeiliau Braille electronig i'r ganolfan honno er mwyn iddyn nhw allu cynhyrchu copi caled o'r asesiad eu hunain.
6. Lle nad oes fformat gofynnol wedi'i gynhyrchu ar gyfer cyfres arholiadau, byddwn yn ymdrechu i gynhyrchu fersiwn wedi'i addasu/fersiynau wedi'u haddasu os gwneir cais am hynny, yn ôl yr amlinelliad yn Adran 6.1, dogfen Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol y CGC. Cofiwch fod yn ymwybodol mai cyngor yn unig yw'r cyfnod amser a awgrymir ar gyfer cynhyrchu cyn bapurau. Mewn cyfnodau prysur, gall gymryd mwy na thri mis i gynhyrchu cyn bapurau. Mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw felly a gofyn am ddeunyddiau cyn gynted â phosibl.
7. Bydd ceisiadau a wneir gan ymgeiswyr preifat, neu ar eu rhan, yn cael eu hystyried yn unol â'n canllawiau yn yr adran cefnogaeth i fyfyrwyr ar ein gwefan.
8. Wrth addasu asesiadau i ddarparu fformatau print bras neu Braille, mae CBAC yn cadw at ddogfen yr UKAAF *Best Practice Guidance for Examinations*.
9. Wrth greu asesiad iaith wedi'i haddasu, mae CBAC yn defnyddio Addaswyr Iaith wedi'u cymeradwyo gan BATOD (BALM) i gynghori ynghylch unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i wneud yr iaith yn fwy hygyrch. Mae CBAC yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl asesiadau'n hygyrch o'r cychwyn cyntaf gan ddefnyddio addaswyr BALM, gan ddileu'r angen i addasu ymhellach fel hyn.
10. Mae'n ofynnol i bob tîm pwnc a phenodedigion sy'n ymwneud â datblygu a chynhyrchu deunyddiau asesu ymgymryd â hyfforddiant o ran cynhyrchu deunyddiau asesu hygyrch a chynhwysol ac i gadw at ganllawiau CBAC:
    - Dylunio asesiadau hygyrch a chynhwysol
    - Canllawiau Darllenadwyedd
    - Sut i ddylunio deunyddiau asesu hygyrch a chynhwysol i ddysgwyr lliwddall
    - Canllaw ar Gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*ac eithrio Braille – gweler Egwyddor 5

## Deunyddiau clywedol a chlyweledol ar gyfer arholiadau

Yn achos asesiadau cymwysterau CBAC TGAU Ieithoedd Tramor Modern a'r holl gymwysterau Cerddoriaeth ac Astudio'r Cyfryngau lle mae adnodd clywedol yn unig neu glyweledol, mae fersiwn o adnodd mp3 neu mp4 yn cynnwys 25% o amser ychwanegol ar gael un diwrnod gwaith cyn dyddiad yr arholiad i'w lawrlwytho o safle Porth ynghyd â thaflen amseru. Mae fersiynau o fformatau mp4 gydag is-deitlau ar gael hefyd i'w lawrlwytho un diwrnod gwaith cyn dyddiad arholiad o safle Porth.

Os oes angen canran amser ychwanegol gwahanol ar unrhyw ddysgwyr, mae canllawiau ar gael i ganolfannau i'w helpu i ddyrannu amser ychwanegol drwy'r asesiad.

## Sut byddwn ni'n mynd ati i addasu deunyddiau asesu

Mae CBAC yn gweithio gydag amrywiaeth o gyflenwyr arbenigol i gynhyrchu deunyddiau asesu wedi'u haddasu a archebir o Trefniadau Mynediad Ar-lein yn y fformatau a amlinellir yn Atodiad 1. Mae CBAC a'i gyflenwyr arbenigol wedi ymrwymo i gadw mor agos â phosibl at y ddogfen UKAAF *Best Practice Guidance for Examinations*. Ein nod yw sicrhau cysondeb a safon ar draws cynhyrchwyr ac asesiadau. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y canllawiau hyn o ran sut mae'n bosibl addasu eitem asesu i sicrhau ei bod yn hygyrch i ddysgwr ag amhariad ar y golwg. Anogwn y canolfannau a'r dysgwyr i ddefnyddio ein dewis o gyn bapurau wedi'u haddasu er mwyn i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r profiad asesu. Mae'n bosibl, ar gyfer TGAU Mathemateg, y bydd ein hasesiadau wedi'u cyflwyno'n wahanol, gan ein bod yn dilyn cyfarwyddyd Canllawiau Ymarfer Gorau ar gyfer Arholiadau Adran 4.2.1 Diagramau. Er enghraifft, mewn cwestiwn sy'n cynnwys diagram 3-D, mae'n debygol y bydd model ffisegol neu siap(iau) wedi'u torri allan yn disodli'r diagram hwn. Bydd deunyddiau'r cyn bapurau yn nodi hyn. Efallai na fydd gan rai canolfannau fodelau neu siapiau o'r gyfres arholiadau fyw. Fodd bynnag, os nad yw'r rhain gennych a'ch bod am gael y modelau neu'r siâp wedi'i dorri allan i ymarfer ar gyn bapurau, cysylltwch â papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk.

## Adborth

Mae CBAC wedi ymrwymo i welliant parhaus ac yn gwerthfawrogi unrhyw fewnwelediad gan y sawl sy'n defnyddio ei ddeunyddiau asesu wedi'u haddasu. Rydym yn barod iawn i groesawu adborth gan athrawon, dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill i'n helpu i sicrhau bod ein deunyddiau'n parhau i fod yn hygyrch, yn briodol ac o safon.

Mae CBAC yn ymwneud yn llawn â'r gymuned hygyrchedd ac asesu ehangach. Rydym yn cymryd rhan yn y Fforwm Ymgynghori ar Fynediad (Access Consultation Forum), dan gadeiryddiaeth Ofqual, ac yn mynychu Grŵp Arholiadau Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru (WAVIE). Drwy'r partneriaethau hyn y cawn wybod am ddatblygiadau yn y sector, rhannu ymarfer da ac ymateb yn rhagweithiol i ddatblygiadau o ran anghenion dysgwyr.

Anogwn bob math o adborth – p'un a yw hynny'n ymwneud â dyluniad, eglurder neu ddefnyddioldeb ein deunyddiau wedi'u haddasu – gan ei fod yn chwarae rôl hanfodol yn llunio gwelliannau'r dyfodol.

## Monitro ac adolygu'r polisi

Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf, neu'n fwy aml os oes newid busnes sylweddol allanol neu fewnol sy'n effeithio ar y polisi.

## Dogfennau cysylltiedig

[CGC – Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol]

[Deddf Cydraddoldeb 2010]

[Polisi Cyhoeddi CBAC]

[Dogfen Cwestiynau Cyffredin Papurau wedi'u Haddasu CBAC]

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych ymholiadau am bapurau wedi'u haddasu, anfonwch e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk.

Tudalen cefnogaeth i fyfyrwyr – ymgeiswyr preifat: CBAC, WJEC, Eduqas

# Atodiad 1: Yn dod o Adran 6.1 llyfryn *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* y CGC

Y fformatau sydd ar gael yw:

- A4 wedi'i addasu 18 pwynt trwm
- A3 wedi'i addasu 24 pwynt trwm
- A4 wedi'i addasu 24 pwynt trwm
- A3 wedi'i addasu 36 pwynt trwm
- Diagramau cyffyrddol gyda labeli print i'w defnyddio gyda phapurau wedi'u haddasu a'u mwyhau
- Papurau Braille gan gynnwys diagramau cyffyrddol gyda labeli Braille
- Iaith wedi'i haddasu (lle bo hynny ar gael)
- Papur cwestiynau electronig heb fod yn rhyngweithiol (PDF)
- Trawsgrifiad o brawf/cyfryngau gwrando

Dylai canolfannau nodi efallai na fydd yr opsiwn o bapur A3 wedi'i addasu a'i fwyhau, mewn print trwm 36 pwynt, ar gael ar gyfer pob pwnc.

## Atodiad 2: Terfynau amser ar gyfer archebu papurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres fyw yn dod o Adran 6.9 llyfryn *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* y CGC.

| |
|---|
| Cyfres Tachwedd (yr Hydref) – 20 Medi |
| Cyfres Ionawr (y Gaeaf) – 4 Hydref |
| Cyfres Mai/Mehefin (yr Haf) – 31 Ionawr |